# Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

## Agenda (SLC (3)-17-08)

Dyddiad: 1 Gorffennaf 2008
Amser : 8.45am
Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 2, y Senedd

**Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau**

**Eitem 2: Offerynnau ac offerynnau drafft na fydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig iddynt o dan Reol Sefydlog 15.2.**

**Eitem 2.1: Offerynnau sy'n agored i gael eu dirymu yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn negyddol)**

**SLC173 - Rheoliadau'r Tafod Glas (Cymru) (Diwygio) 2008**

Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 18 Mehefin 2008. Fe'u gosodwyd ar 18 Mehefin 2008. Yn dod i rym ar 19 Mehefin 2008. - yn diwygio'r Rheoliadau'r Tafod Glas (Cymru) 2008 i alluogi Gweinidogion Cymru i roi trwydded i bersonau gael cyflenwad o frechlyn oddi wrth gyfanwerthwyr a gweithgynhyrchwyr a awdurdodwyd dan y Rheoliadau Meddyginiaethau Milfeddygol 2007. Pe byddai wedi bod yn angenrheidiol dechrau brechu cyn y Rheoliadau hyn yna byddai'r drwydded wedi'i rhoi gan yr Ysgrifennydd Gwladol (ar ran Gweinidogion Cymru). Gan ei bod yn angenrheidiol i'r Rheoliadau ddod i rym cyn gynted ag sy'n bosibl i ddarparu'r pwerau angenrheidiol i alluogi'r Gweinidogion yng Nghymru i gyhoeddi trwyddedau, gwnaethpwyd y Rheoliadau a gosodwyd hwy ar 18 Mehefin 2008 a daethant i rym ar 19 Mehefin 2008. Rhoddodd y Cwnsler Cyffredinol wybod i Lywydd y Cynulliad trwy lythyr dyddiedig 18 Mehefin am dorri rheol 21 (fel y cyfeiria adran 11A(4)(b) o'r Ddeddf Offerynnau Statudol 1946).

**SLC174 - Rheoliadau Cynhyrchion Reis o Unol Daleithiau America (Cyfyngiad ar eu Rhoi Gyntaf ar y Farchnad) (Cymru) (Diwygio) 2008**

Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 23 Mehefin 2008. Fe'u gosodwyd ar 24 Mehefin 2008. Yn dod i rym ar 17 Gorffennaf 2008

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Cynhyrchion Reis o Unol Daleithiau America (Cyfyngiad ar eu Rhoi Gyntaf ar y Farchnad) (Cymru) 2008 ("y prif Reoliadau"). Yn ei gyfarfod ar 22 Ebrill 2008 nododd y Pwyllgor gamgymeriadau drafftio y dywedodd y Llywodraeth, yn ei ymateb i'r pwyllgor, y byddai'n eu cywiro cyn toriad yr haf. Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud y cywiriadau angenrheidiol i'r prif Reoliadau.

**Eitem 3: Is-ddeddfwriaeth arall a osodir gerbron y Cynulliad y caiff y pwyllgor gyflwyno adroddiad arni - Rheol Sefydlog 15.6(i)**

**Eitem 3.1: Rheol Sefydlog 25 - Gweithdrefn Cynulliad Arbennig: Gorchymyn Prynu Gorfodol Gweinidogion Cymru (Ochr Ddeheuol Basn y Rhath, Caerdydd) 200-**

**SLC161 - Gorchymyn Prynu Gorfodol Gweinidogion Cymru (Ochr Ddeheuol Basn y Rhath, Caerdydd) 200-**

Gweithdrefn Cynulliad Arbennig (Rheol Sefydlog 25). Fe'i gwnaed 200- . Yn dod i rym 200-. Byddai'r Gorchymyn drafft hwn yn caniatáu i Weinidogion Cymru gaffael tir yn orfodol ger Basn y Rhath, Bae Caerdydd. Byddai hefyd yn golygu rhyddhau hawliau sydd eisoes yn bodoli a.y.b. a chaffael hawliau newydd.

**Eitem 4: Unrhyw fater arall**

**Eitem 5: Dyddiad y cyfarfod nesaf**